



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar

**Landsker Education
The Old Cornstore
Northfield Road
Arberth
Sir Benfro
SA67 7AA**

Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2017

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a
Hyfforddiant yng Nghymru**

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor

Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 01/02/2018

Cyd-destun

Mae Landsker Child Care yn cynnig pecyn gofal preswyl ac addysg integredig i ddisgyblion 'sy'n derbyn gofal' ac sydd â heriau i'w dysgu. Mae gan y disgyblion amrywiaeth o anghenion, gan gynnwys anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol, ac anawsterau dysgu cymedrol. Mae 26 lle preswyl ar gael ar draws saith cartref plant gwahanol y sefydliad. Mae tri o'r cartrefi hyn yng nghefn gwlad Sir Benfro, dau yn ardal Castell-nedd Port Talbot, un ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac un ym Mro Morgannwg.

Mae'r ysgol yn darparu addysg amser llawn ym mhob un o'r cartrefi plant. Ar adeg yr arolygiad, roedd 18 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol. Mae un dosbarth ym mhob cartref. Mae maint dosbarthiadau yn amrywio o un i bedwar disgybl. Mae saith athro amser llawn, bob un ohonynt â statws athro cymwysedig. Mae gan bob dosbarth athro allweddol ar gyfer tri diwrnod o'r amserlen. Mae athrawon yn cyfnewid yn nosbarthiadau'r ysgol am y deuddydd arall i rannu eu harbenigedd a chynnig newid personél ac amrywiaeth o weithgareddau i ddisgyblion. Hefyd, mae Landsker yn cefnogi'r bobl ifanc eraill sy'n byw yn y cartrefi i'w galluogi i fynychu'r ddarpariaeth addysg brif ffrwd leol.

Mae'r pennaeth yn rheoli'r ddarpariaeth a'r safonau addysg ar draws y saith dosbarth. Mae hi'n ymweld â phob dosbarth yn rheolaidd i fonitro cynnydd disgyblion a mynychu eu cyfarfodydd adolygu. Mae staff addysgu yn cyfarfod yn ffurfiol ddwywaith y tymor ond maent yn cyfathrebu'n rheolaidd.

Yn yr arolygiad hwn, ymwelodd y tîm â dosbarthiadau yn nhri o gartrefi plant Landsker.

Prif ganfyddiadau

Cryfhau

Mae disgyblion yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac yn cyrraedd gwersi mewn pryd. Maent yn tawelu'n gyflym ac yn frwdfrydig am eu gwaith.

Mae cynllunio gwersi yn fanwl ac yn ystyried mentrau cenedlaethol, fel y Cwricwlwm i Gymru a'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol. Mae gwersi'n ddiddorol ac mae cyflymder addas yn cynnal diddordeb disgyblion yn dda.

Mae athrawon a staff cymorth yn cydweithio'n dda i gefnogi dysgu ac ymddygiad disgyblion. Maent yn rhoi cyfarwyddiadau clir. Mae holi effeithiol yn caniatáu i bob disgybl rannu eu barn yn hyderus.

Mae'r cyngor ysgol yn rhoi cyfrwng effeithiol i ddisgyblion gyfrannu at benderfyniadau am yr ysgol.

Mae ystafelloedd dosbarth wedi'u cyfarparu'n dda ac mae ganddynt arddangosfeydd deniadol sy'n atgyfnerthu dysgu yn dda.

Mae staff yn elwa o allu rhannu adnoddau a syniadau ar draws y saith safle.

Meysydd i'w datblygu

Mae'r ysgol yn defnyddio amrywiaeth o brosesau sicrhau ansawdd, gan gynnwys arsylwadau gwersi a chraffu ar waith disgyblion. Fodd bynnag, nid ydynt yn defnyddio gwybodaeth o'r prosesau hyn yn ddigon da i nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu ac i lywio cynllunio strategol.

Mae gan yr ysgol amrediad priodol o bolisiâu manwl sy'n cael eu gweithredu'n dda. Fodd bynnag, nid yw'r rhain bob amser yn amlinellu rolau a chyfrifoldebau staff yr ysgol yn ddigon clir.

Argymhellion

A1 Sicrhau bod polisiâu yn amlinellu rolau a chyfrifoldebau staff yr ysgol yn glir

A2 Defnyddio gwybodaeth o weithgareddau sicrhau ansawdd i nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu ac i lywio cynllunio strategol

Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

Argymhelliad 1: Gwella'r defnydd o ddata asesu i osod targedau llythrennedd a rhifedd heriol i'r holl ddisgyblion

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r ysgol yn cynnal amrywiaeth o asesiadau priodol yn gysylltiedig â lefelau'r Cwricwlwm Cenedlaethol a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Mae hyn yn cynnwys asesiadau gwaelodlin ac asesiadau rheolaidd gan athrawon trwy gydol y flwyddyn. Mae athrawon yn defnyddio'r wybodaeth hon i olrhain cynnydd disgyblion, datblygu targedau disgyblion unigol a llywio cynllunio. Maent yn defnyddio gwybodaeth o asesiad darllen a sillafu gwaelodlin i gynllunio profion sillafu rheolaidd i ddisgyblion, yn unol â'u hangen.

Mae llawer o'r targedau yn y cynlluniau addysg unigol yn heriol ac yn fesuradwy. Fodd bynnag, maent yn rhy gyffredinol ar adegau.

Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff

Yn yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 4.

Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion

Yn yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

Safon 6: Darparu gwybodaeth

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion

Yn yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 7.

Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestrriad yr ysgol hon, gallai Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

Gwybodaeth am yr ysgol

Ysgol	Landsker Education
Rhif yr ysgol	6686016
Diben yr ymweliad	Arolygiad monitro blynyddol
Dyddiad yr ymweliad	05/12/2017
Perchennog	Paul Thomas
Staff	7 athro, 1 pennaeth
Nifer y disgyblion	18
Darpariaeth	52 wythnos, Preswyl
Math o angen addysgol arbennig y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer	Anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol
Arolygiad Adran 163 diwethaf	05/11/2012
Arolygiad monitro blynyddol diwethaf	07/11/2016
Arolygiad diwethaf gan AGGCC	